# POLISI IAITH ADDYSG GWYNEDD

| DARPARIAETH ADDYSG CYN YSGOL | ADY: YSGOLION PRIF FFRWD AC YSGOLION ARBENNIG |
|---|---|
| Bydd holl leoliadau addysg cyn-ysgol yn darparu trwy gyfrwng Y Gymraeg. | Mae plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derbyn cyfle cyfartal ieithyddol yn unol â'r Polisi hwn. Mae **rhaid** rhoi sylw i Ddeddf ADY a Tribiwnlys Cymru (2018) wrth ddehongli'r polisi hwn. Lle mae Darpariaeth Dysgu Ychwanegol wedi ei nodi mewn Cynllun Datblygu mewn cyfrwng iaith penodol ar gyfer y cyfathrebu ac ymyrraeth, mae rhaid rhoi sylw i roi hynny mewn lle, a chyd-fynd gyda chyngor arbenigol. Mae'n rhaid rhoi sylw i Ddeddf Cydraddoldeb yn ogystal. |
| **YSGOLION CYNRADD** | **YSGOLION UWCHRADD** |
| Mae pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn Ysgol Categori 3 neu'n ymgyrraedd at fod yn Ysgol Categori 3 yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion cynradd.<br>Nod y Polisi Iaith Addysg yn y sector cynradd yw datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn eu bod yn 11 oed, gan ddatblygu sgiliau ieithyddol disgyblion a darparu cyfleoedd **i'w defnyddio** mewn sefyllfaoedd real ac ystyrlon.<br>Cymraeg yw prif gyfrwng addysg disgyblion a chyfathrebu mewnol ysgolion cynradd Gwynedd. Bydd cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, yn ôl yr angen. Bydd gan bob ysgol ethos Cymraeg a Chymreig, a fydd yn cefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun yn yr ysgol a'r tu allan iddi.<br>**<u>Cyfnod Sylfaen hyd at ddiwedd Blwyddyn 2</u>**<br>Mae pob disgybl yn cael ei addysgu **a'i asesu** drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd Blwyddyn 2. **Bydd ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson, y tu mewn a thu allan i'r dosbarth, yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol.**<br>**<u>Blwyddyn 3 – Blwyddyn 6</u>**<br>O flwyddyn 3 ymlaen, mewn cyd-destun o feithrin sgiliau sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd llawn, bydd o leiaf 80% o weithgareddau addysgol y disgybl (cwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.<br>Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. O flwyddyn 3 ymlaen, bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu trawsgwricwlaidd.<br>Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. Disgwylir i ysgolion sicrhau bod pob disgybl (Blynyddoedd 2-6) sy'n hwyrddyfodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd. | Mae pob ysgol uwchradd yng Ngwynedd yn Ysgol Categori 3 neu'n ymgyrraedd at fod yn Ysgol Categori 3 yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd.<br>Ar gyfer pob ysgol yn y categori hwn, **y Gymraeg fydd prif iaith yr addysg i'r holl ddisgyblion hyd at 16 oed** (yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru o'r disgwyliadau statudol ar ysgolion Categori 3 Uwchradd).<br><br>Dylid parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Bydd Y Saesneg yn parhau i gael ei chyflwyno fel pwnc a chyfrwng dysgu rhai elfennau trawsgwricwlaidd.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i ddarparu Cwrs Trochi Dwys o fewn y Gyfundrefn Addysg Trochi. Disgwylir i ysgolion sicrhau bod pob disgybl (Blynyddoedd 7-9) sy'n hwyrddyfodiad ac yn siaradwr newydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfeirio i fynychu Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd, er mwyn iddynt allu dilyn y cwricwlwm yn llawn yn unol â Pholisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd. Bydd ysgolion yn darparu'n ieithyddol briodol ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd yn cyrraedd yr ysgolion fel hwyrddyfodiaid ym mlynyddoedd 10 ac 11.<br><br>Cymraeg fydd y brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol. Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Bydd gan bob ysgol ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. |

DRAFT